50119

# CAN NEWYDD,

## Yr hon sy'n dangos Barn Duw yn y gwlawogydd a ddygwyddodd yn y Cynhauaf ac ar ol hyny yn y flwyddyn 1821.

CENIR AR Y DON A ELWIR "DINIWEIDRWYDD."

JAMES, ARGRAFFYDD, MERTHYR-TYDFIL.

1 TRIGOLION byd i gyd yn gyfan,
Gorllewin, De, a Dwyrain, dewch,
Ystlysau'r Gogledd yn gyfanedd,
I Dduw'r anrhydedd rhwyddedd rhowch;
Awn mewn mwyniant, ffown am ffyniant,
Lle mae gogoniant meddiant mawr,
Rhag bod ein diwedd, gweinion gwanaidd,
Dan ryw ddialedd oeredd awr.

2 'Rwyn meddwl gwelir am ein beiau
Rai gwyr yn cael dyoddefaint mawr,
Mae'r dreigiau oll yn d'rogan drygfyd,
Gan ddweud y daw rhyw lid i lawr;
Mewn ffordd o farn bu Duw y duwiau
Yn drygu ein bara am ein bai;
O awn i 'mofyn am faddeuant,
Cyn byddo ein llwyddiant fyn'd yn llai.

3 Ofni yn fawr yr wyf yr awrhon
Cawn weled rhyw echryslon lid,
Ein lluniaeth oll sy'n awr yn arwydd,
Fod ini'n d'od rhyw dramgwydd drud,
Am ini bechu'n ddrwg ein buchedd,
Fel rhai anweddaidd yma'n wir,
Duw y duwiau'n anfon breintiau
Hwyr a boreu ini'n bur.

4 Ein Duw fygythiodd drwy wlawogydd
Dyfetha ffrwyth ein maesydd mwyn,
A threfn rhagluniaeth hylwydd helaeth
Fu'n dangos gwg ac alaeth gwyn;
Ond etto cawsom drugareddau,
Trwy faith gyneddfau a doniau Duw,
A ninau a'n buchedd yn llawn pechod,
Rhyfeddod fawr ein bod yn fyw!

5 Pe rhoisai Duw ei wialen arnom,
Yn ol y drygau a wnaethom ni,
Fe wnaethai i'r newyn, er mawr niwed,
Ein lladd heb un drugaredd gu;
Ond wele 'nawr, er maint ein beiau,
Rym ar y ddaear eto'n fyw,
Haeddasom fod dros byth yn dyoddef
Dan greulon ddig dialedd Duw.

6 Ein hanuwioldeb oedd yr achos
O ddrygu'n llwyr ein lluniaeth ni,
A byw'n annuwiol oedd yr ystyr,
Fu'n boddi ein byd a diluw du;
Am fyw'n anuwiol dan y nefoedd,
Fe losgodd Duw Sodoma'n dân,
Ein hanuwioldeb ddaw o'r diwedd,
I ddifa'r ddaear loywedd lân.

7 Yr holl daranau mawr a glywsom,
A'r mellt a welsom yma'n wir,
Oedd am ein bod yn byw dan bechod,
Gan garu trallod hynod hir;
Am bechod mawr fe laddwyd miloedd,
Ar dir a moroedd ymhob man,
O achos hwn fe'n lleddir ninau,
Os byddwn byw heb ras i'n rhan.

8 O dewch g'oethogion a thlodion
I foli'r Iesu cyfion cu,
Am bob trugaredd raddol rwyddedd,
Fel hawddgaraidd lariaidd lu;
Awn gan adael ein drygioni
I'mofyn am yr Iesu'n rhwydd,
Cyn gweled mwy o'r mawr ddialydd,
Sy'n awr ar gynydd yn ein gwydd.

9 Mae'n beth ofnadwy gweled ienctyd
Yn tynu llid a dial Duw,
A chanol oed, a'r henaint hynod,
Dan ddirfawr bechod yma'n byw;
Er maint a gawsom yn ein lluniaeth
O farnedigaeth odiaeth iawn,
Hyd heddyw'r ym yn uchel alw
Am ddifa'n llwyr ein llwyddiant llawn.

10 Gan lawer un sydd yn ein teyrnas
Ein bara welir yn rhŷ wael,
Ond dylem gofio mai addfwynaidd
Drugaredd gu fod hwn i'w gael;
Lle cael bod fel gwyr Samaria
Mewn eisiau bara yn fawr eu poen,
Trugaredd fawr na buasem nineu
Dan garnau'r meirch a welodd Io'n.

11 Y Duw rows newyn yn Samaria,
A wnaeth yn llaith ein lluniaeth ni;
Yr hwn fu gynt yn boddi'r Aiphtiaid
Sy'n awr yn dangos cariad cu;
Y Duw a soddodd Cora, Dathan,
O'r byd yn fyw i uffern dân,
Yw'r unig un a roes drugaredd
I Brydain fwynaidd fawr a mân.

12 Er fod gwialen barn i'w gweled,
Trugaredd sydd anfeidrol fawr,
Yn erbyn barn mae'n gorfoleddu,
Gan ddofi'r llid rhag llenwi'r llawr;
Er drygu'n bara, nid oes newyn
Yn awr yn brydain fawr ei bri,
Rho'wn glod i Dduw am ei drugaredd,
Cyn delo dydd dialedd du.

13 Os ceisiwn Dduw ni gawn lawenydd,
Caersalem newydd fydd ein llef,
Pan bo'r anuwiol yn cael poeni,
Ni gawn feddianu teyrnas nef;
Ac yno canwn er gogoniant,
Da nwyfiant yn y nefoedd wen;
Am hyny byth rhown barch a moliant
I Dduw mewn mwyniant oll. Amen.

Richard Williams, Bardd y gwagedd a'i cant.

---

MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD GAN J. JAMES.